

"Rwy'n gyfrifol am ddiweddarau'r wefan, ac yn poeni am faint o wybodaeth alla i roi am ddisgyblion unigol, ac am reolau data a hawlfraint. Oes unrhyw gyngor syml gennych i ysgolion a cholegau addysg bellach?"

Mae gwefan yn un o'r dulliau y mae ysgolion a cholegau addysg bellach yn eu defnyddio i hysbysu'r gymuned o'u gwaith, o'u llwyddiannau ac o ddigwyddiadau penodol.

Gellir cymryd camau synhwyrol, syml a phositif er mwyn amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc, heb fod yn eithafol:

- gwell defnyddio lluniau grŵp yn hytrach na lluniau o ddisgyblion / myfyrwyr unigol
- ni ddylid rhoi enwau disgyblion / myfyrwyr ger lluniau ohonynt, na defnyddio enwau llawn disgyblion (e.e. peidiwch enwi disgybl ddaeth yn fuddugol mewn cystadleuaeth neu sgoriodd i ennill gêm a chynnwys llun y fuddugoliaeth, neu lun o sioe ysgol gan enwi'r prif gymeriadau ac enwau llawn y disgyblion sydd yn chwarae'r rhan)
- ni ddylai fod modd i rywun allu cysylltu â disgybl / myfyriwr unigol oherwydd y wefan
- dylid osgoi gwe-gamerâu a chyflenwadau byw (*live feeds*), gan nad oes modd cadw rheolaeth drostynt

Er mwyn sicrhau nad oes cynnwys anaddas wedi ymddangos drwy gamgymeriad:

- os oes disgyblion/myfyrwyr yn gyfrifol am ysgrifennu neu baratoi deunydd, bydd angen canllawiau clir arnynt a rhaid eu bod hefyd yn deall y rheswm am y canllawiau hyn; dylid hefyd oruchwylio'r gwaith

I ddiogelu'ch ysgol / coleg rhag cyhuddiadau cyfreithiol:

- rhaid sicrhau bod unrhyw ddefnydd o luniau neu wybodaeth bersonol yn cydymffurfio â Deddf Diogelu Data 1998; gan amlaf mae'n ddigonol i hysbysu'r unigolyn a'i riant neu warcheidwad beth yw'r cynnwys a sut y bwriedir ei ddefnyddio, a chael caniatâd mewn ysgrifen, yn enwedig mewn achos o lun unigol o'r disgybl neu os enwir disgyblion
- mae rheolau hawlfraint ac eiddo deallusol (*intellectual property*) yn weithredol ar y we, felly rhaid cymryd gofal wrth atgynhyrchu gwaith o wefannau eraill, neu wrth ddefnyddio delweddau, cerddoriaeth, testunau a.y.b. gan eraill; os oes gennych unrhyw amheuaeth, gwell peidio defnyddio'r deunydd - gall camweithredu arwain at ddirwy sylweddol
- dylid osgoi cysylltiadau â blogiau neu wefannau personol oherwydd gellir erlyn yr ysgol petai'r rhain yn cynnwys deunydd enllibus
- mae angen cael polisi clir ar greu, diweddarau a monitro cynnwys y wefan; dylai'r polisi gynnwys beth yw'r gofynion cymeradwyo (*approval requirements*)
- mae angen i rywun mewn sefyllfa o awdurdod fod yn gyfrifol am gadw golwg ar gynnwys y wefan a bydd angen gwirio'r cynnwys yn achlysurol

Dylai bod gan eich ysgol / coleg **Strategaeth E-Ddiogelwch** a/neu **Bolisi Defnydd Derbyniol** (*Acceptable Use Policy*) sy'n rhestru rheolau'r ysgol / coleg yn y maes hwn, ac yn cynnig cyngor. Os nad ydych wedi gweld y Strategaeth/Polisi, gofynnwch i'ch Pennaeth.

Am wybodaeth a chyngor pellach, edrychwch ar daflen wybodaeth UCAC: [Defnydd Diogel a Chyfrifol o E-dechnoleg](#) neu cysylltwch â swyddfa UCAC i gael copi.